

Cyngor Cymuned Llandybie Policy Diogelu Data

1 Cyflwyniad

1.1 Mae Cyngor Cymuned Llandybie ("Y Cyngor") yn cadw data personol parthed ymgeiswyr am swyddi, cyflogwyr. Cynghorwyr, cwsmeriaid, cyflenwyr ac eraill amamryw o rhesymau busnes.

1.2 Mae'r polisi yma'n gosod allan sut mae'r Cyngor yn diogelu data personol a sicrhau bod staff yn deall mwy am y rheolau dros ddefnyddio data personol mae ganddynt fynediad iddo yn ystod eu gwaith.

1.3 Yn benodol, mae'r polisi yma'n gofyn i staff sicrhau bod unigolion wedi eu hysbysu cyn i unrhyw brosesu data newydd gychwyn a bod y canllawiau angenrheidiol yn eu lle.

1.4 Stuart Griffith bydd yn gyfrifol am weithredu y poisi yma. Os oes ganddoch unrhyw gwestiynnau ynghlyn a chynnwys y polisi yma neu unrhyw sylwadau, a fyddech cystal a chysylltu a fe.

2 Amrediad

2.1 Mae'r polisi yma'n berthnasol i'r holl staff, at y diben hwn mae'n cynnwys cyflogwyr, parhaol a dros dro. Gweithwyr asiant, contractwyr erai;; a Chynghorwyr.

2.2 Rhaid i staff fod yn gyfarwydd gyda'r polisi yma a chydymffurfio gyda'r termau.

2.3 Mae'r polisi yma'n atodol i bolisiau eraill y Cyngor ar Diogelwch Gwybodaeth a Rheoli Adroddiadau.

2.4 Gall y Cyngor ddiweddaru neu newid y polisi gan bolisiau eraill a chanllawiau o bryd i'w gilydd. Bydd unrhyw bolisi newydd neu a newidiwyd yn cael eich gylchredeg i staff cyn eu mabwysiadu.

3 Diffiniad

3.1 Yn y polisi yma:

pwrpas busnes yw y pwrpas y defnyddir data personol gan y Cyngor e.e. pwrpas - personél, gweinydd, ariannol, rheoleiddio, cyflogres, a datblygu busnes;

data personol yw'r wybodaeth am unigolion y gellir eu hadnabod, megis ymgeiswyr swydd, cyflogwyr cynt a phresennol, staff asiant neu gontract, cwsmeriaid.darparwyr, a cyhysylltiadau marchnata. Mae hwn yn cynnwys mynegiant o farn am yr unigolyn ac unrhyw fwriad gan eraill tuag at yr unigolyn;

data personol sensitif sef data personol am dras hil neu ethnig, barn gwleidyddol, crefydd neu gredoau tebyg, aelodaeth (neu ddiffyg aelodaeth) undeb, cyflwr corfforol neu feddyliol, bywyd rhywiol, troseddau, neu weithrediadau. Bydd unrhyw ddefnydd o'r data personol sensitif yn cael ei drin mewn modd cyfyng iawn yn ôl y polisi yma;

prosesu data y modd o gael, recordio, neu ddal unrhyw beth a data, megis trefnu, defnyddio, newid, adennill, datgelu neu ei ddileu.

4 Egwyddorion Cyffredinol

4.1 Polisi y Cyngor yw i brosesu data personol drwy cydymffurfio gyda'r deddfau diogelu data cymwys a hawliau'r unigolyn a osodir allan isod. Mae gan yr holl gyflogwyr y cyfrifoldeb dros weithredu ymarferol polisi diogelu data y Cyngor. out below.

4.2 Bydd y Cyngor yn cadw at yr egwyddorion a ganlyn wrth brosesu data personol:

4.2.1 prosesu data personol yn deg a chyfreithiol o fewn hawliau'r unigolyn;

4.2.2 sicrhau fod unrhyw data personol a brosesir at bwrpas penodol yn ddigonol, perthnasol, ac nid yn ormodol i'r pwrpas hynny;

4.2.3 cadw'r data personol yn gywir ac yn gyfoes;

4.2.4 dim yn cadw'r data personol yn hirach na bo angen;

4.2.5 cadw'r data personol yn ddiogel rhag colled neu camddefnydd;

4.2.6 peidio trosglwyddo data personol tu allan i'r AEE (sy'n cynnwys gwledydd yr UE, Norwy, Gwlad yr Ia a Liechtenstein) heb y diogelwch angenrheidiol.

5 Prosesu teg a chyfreithlon

5.1 Ni ddylai staff brosesu data personol oni bae:

5.1.1 bod yr unigolyn sydd yn cael ei manylion wedi prosesu wedi caniatáu hwnt;

5.1.2 bod y prosesu yn hanfodol er mwyn dyletswyddau cyfreithiol y Cyngor neu yn ymarfer hawliau cyfreithiol, neu

5.1.3 bod y prosesu o fewn hawliau cyfreithiol y Cyngor, ac nad yw'n amharu ar hawl yr unigolyn.

5.2 Pan yn casglu data personol neu sefydlu gweithgareddau diogelu data newydd, dylai stafff sicrhau bod yr unigolion y prosesir eu data gael gwybod y canllawiau diogelu data sy'n amlinellu sut y defnyddir y data Mae rhai achosion lle nad oes rhaid rhoi y rhubudd. Os yn ansicr a ddylid rhoi gwybod dylai staff gysylltu a Stuart Griffith.

5.3 Fel arfer bydd yn angenrheidiol i gael caniatâd arbennig yr unigolyn i brosesu ' data personol sensitif',oni bae bod amgylchiadau arbennig, neu bo'r broses yn angenrheidiol at ofynion cyfreithiol. Dylai'r caniatâd fod yn wybodus, sy'n golygu bod rhaid iddo adnabod y data berthnasol, pam mae'n cael ei brosesu, ac i bwy bydd yn cael ei ddatgelu, Dylai staff gysylltu a Stuart Griffith am fwy o wybodaeth ar gael caniatâd i brosesu data bersonol sensitif.

6 Cywirdeb, addasrwydd, perthnasedd a chymesur

6.1 Dylai staff sicrhau fod y data bersonol a brosesir ganddynt yn gywir, addas, berthnasol a chymesur at y pwrpas y defnyddir. Ni ddylir ddefnyddio data personol a ddefnyddir at un pwrpasfel arfer cael ei ddefnyddio at bwrpas digyswllt arall on ibae bod yr unigolyn wedi cytuno a hwn, neu wedi disgwyl yn rhesymol i'r data gael ei ddefnyddio yn y modd yma.

6.2 Gall unigolion ofyn i'r Cyngor i gywiro data personol yr ystyrir yn anghywir, Os yw aelod ostaff yn cael ymholiad o'r fath ondyn anghytuno bod y data bersonol yn anghywir, dylent nodi bod y faith wedi ei herio a rhoi gwybod i Stuart Griffith.

6.3 Rhaid i staff sicrhau bod y data personol sydd gan y Cyngor amdanynt fod yn gywir a wedi ei ddiweddaru fel bo angen. Os yw manylion personol neu amgylchiadau yn newid, dylai staff rhoi gwybod i Stuart Griffith, fel gall gwybodaeth y Cyngor gael ei ddiweddaru.

7 Diogelwch

7.1 Rhaid i staff gadw'r data personol yn ddiogel rhag colled neu camddefnydd, yn ôl gofynion y Cyngor.

8 Cadw data

8.1 Ni ddylid gadw data personol unrhyw hwyrach na bo angen. Bydd hyd yr amser y cedwir ydata yn ddibynnolar yr amgylchiadau gan gymnnwys y rheswm pam y casglwyd y data personol i gychwyn. Dylai staff ganlyn Canllaw Cadw'r Cyngor.

9 Trosglwyddo Rhyngwladol

9.1 Ni ddylai staff drosglwyddo data personol yn rhyngwladol a /neu tuallan i'r AEE (sy'n cynnwys gweldydd yr UE, Norwy, Gwlad yr Ia a Liechtenstein) heb yn gyntaf gofyn i Stuart Griffith. Mae cyfyngderau ar drosglwyddo rhyngwladol o ddata personol o'r AEE i wledydd eraill oherwydd yr angen i sicrhau bod camau diogelwchTyn ei lle i amddiffyn y data personol. Os yw staff yn ansicr pa ddarpariaeth a wnaethpwyd neu syddeu hangen yna cysylltwch a Stuart Griffith.

10 Hawliau Unigolion

10.1 Mae gan unigolion yr hawl (heblaw o dan amgylchiadau arbennig) iofyn am gael mynediad i'r wybodaeth a gedwir amdanynt. Dylai pob ymholiad gael ei rhoi gerbron Stuart Griffith yn union. Mae hwn yn arbennig o bwysig oherwyddrhaid i'r Cyngor ymateb i'r ymholiad o fewn yr amser penodol.

10.2 Os oes unrhyw aelod o staff am gywiro neu gofyn am wybodaeth sydd gan y Cyngor yna dylid cysylltu a Stuart Griffith. Dylid nodi bod yna rhai cyfyngiadau ar y wybodaeth y mae gan yr unigolyn hawl cyfreithiol i.

10.3 Nid yw Cyngor Cymuned Llandybie yn ymgymryd a marchnata uniongyrchol, a felly ni ddylai staff ddanfon deunydd marchnata uniongyrchol yn electronig (e.e. drwy ebost).

11 Adrodd Trosedd

11.1 Mae gan staff y ddyletswydd i adrodd ar unrhyw drosedd neu drosedd posib o gydymffurfio gyda diogelu data yn ôl i Stuart Griffith. Bydd hwn yn galluogi y Cyngor i:

11.1.1 ymchwilio'r drosedd a chymryd y camau priodol lle bo angen; a

11.1.2 rhoi datganiadau priodol.

12 Canlyniad peidio a chydymffurfio

12.1 Mae'r Cyngor yn cymryd cydymffurfio a'r polisi yma yn ddifrifol iawn. Mae peidio cydymffurfio yn peryglu y staff a'r Cyngor. Mae pwysigrwydd y polisi yma'n golygu y gall arwain at ddisgyblaeth a all arwain at ddiswyddo.

12.2 Os eos gan staff unrhyw gwestiwn neu ofidiau am unrhywbeth yn y polisi yma yna dylid eu trafod gyda Stuart Griffith yn dddiymdroi.

Yr wyf wedi darllen a deall y polisi yma ac yn cytuno cydymffurfio.

Llofnod _____

Enw _____